



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

**Sut mae gwneud
cwyn am osteopath**

GWAITH Y CYNGOR OSTEOPATHIG CYFFREDINOL

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ddyletswydd statudol i ddatblygu a rheoleiddio'r proffesiwn osteopathi yn y DU er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn gyfrifol am:

- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant osteopathig
- cofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys bob blwyddyn a sicrhau eu bod yn parhau yn addas i ymarfer
- sefydlu a hyrwyddo safonau uchel o ymarfer ac ymddygiad osteopathig
- helpu cleifion sydd â chwynion neu bryderon am osteopath ac, os oes angen, ymdrin â'r cwynion hynny drwy weithdrefnau addasrwydd i ymarfer.

Y GOFRESTR STATUDOL O OSTEOPATHIAID

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnal Cofrestr o'r rhai a ganiateir i ymarfer osteopathi. Gallwch gael manylion cofrestru diweddaraf pob osteopath neu restr o osteopathiaid sy'n ymarfer mewn ardal benodol drwy'n ffonio ni ar 020 7357 6655 neu drwy edrych ar y Gofrestr ar ein gwefan www.osteopathy.org.uk.

ADDASRWYDD I YMARFER

Mae gennym bwerau cyfreithiol i ystyried achosion lle honnir bod osteopath:

- a. wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol;
- b. wedi bod yn euog o anghymwyster proffesiynol;
- c. wedi'i euogfarnu o drosedd;
- ch. wedi methu ymarfer yn briodol fel osteopath oherwydd ei gyflwr/chyflwr corfforol neu feddyliol.

BETH ALLAF EI WNEUD OS OES GEN I BROBLEM GYDA FY OSTEOPATH?

Os ydych chi'n credu bod eich cwyn yn ymwneud â'r math o wasanaeth a gawsoch gan y practis, neu ymddygiad yr osteopath, yna ceisiwch gysylltu â nhw'n uniongyrchol a thrafod y mater. Mae'r rhan fwyaf o broblemau'n cael eu hachosi gan gamddealltwriaeth a gellir eu datrys yn hawdd yn lleol.

Os ydych chi'n dal i fod yn anfodlon, neu os yw'r gŵyn yn un mwy difrifol, dylech gysylltu â'n hadran Addasrwydd i Ymarfer, gan ei bod yn bosibl y bydd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol y gallu i ymdrin â'r gŵyn. Fel arall, byddwn yn gallu'ch cyngori ar y camau mwyaf priodol i'w cymryd.

GWNEUD CWYN

Gallwch ein ffonio i drafod eich cwyn. Os ydych chi'n penderfynu cyflwyno cwyn ffurfiol, byddwn yn gofyn i chi ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl am eich honiadau. Rydym ni angen hyn yn ysgrifenedig, felly efallai y byddwn yn gofyn i [chi lenwi ffurflen](#) i'n cynorthwyo.

BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

Rydym yn cymryd pob cwyn am osteopath o ddifrif. Mae'r camau y byddwn yn eu cymryd i ymchwilio iddynt ac ymdrin â nhw yn cael eu llywodraethu gan y rheolau y cytunir arnynt gan y Cyfrin Gyngor. Bydd eich cwyn yn cael ei hasesu gan Sgriniwr, i sicrhau ei bod yn rhywbeth y dylen ni fod yn ymdrin ag ef. Bydd y Sgriniwr yn edrych yn ofalus ar yr holl wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni. Os oes angen, efallai y byddwn yn cysylltu â chi i drafod manylion penodol.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael, efallai y bydd y Sgriniwr yn penderfynu peidio â gweithredu ynghylch y gŵyn yn ystod y cam hwn. Os yw hynny'n digwydd, byddwn yn dweud wrthyhych chi pam nad ydym yn mynd â'ch cwyn ymhellach. Gall hyn fod oherwydd:

- a. nid yw'r ymarferwr wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol;
- b. nid yw'r gŵyn yn un digon difrifol;
- c. nid yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymarfer yr osteopath;
- ch. nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi'r gŵyn.

Ni fydd y Sgriniwr yn gwrthod cwyn heb ymgynghori ag aelod lleyg o'r Pwyllgor Ymchwilio yn gyntaf. Os nad yw'r Sgriniwr yn gallu mynd ymlaen ag achos, efallai y bydd am i'r osteopath gael ei hysbysu'n ffurfiol y bydd y mater yn cael ei ystyried pe bai ymchwiliad pellach yn cael ei gynnal i weld a ellir casglu digon o dystiolaeth i gefnogi'ch honiadau. Pa mor ddifrifol bynnag yw'ch cwyn, mae'n rhaid i ni gael digon o dystiolaeth i gyflwyno achos mewn gwrandawriad. Os na allwn wneud hynny, ni fyddwn yn mynd ymlaen â'ch achos.

Os ydym yn ymchwilio i gŵyn, byddwn yn dweud wrth yr osteopath am yr honiadau, ac mae gan yr osteopath yr hawl i ymateb. Byddwn angen eich caniatâd i gysylltu â'r osteopath, felly byddwn yn datgelu pwy ydych chi. Byddwn yn anfon copi o'r honiadau at yr osteopath hefyd.

Y PWYLLGOR YMCHWILIO

Bydd y Sgriniwr yn adrodd i'r Pwyllgor Ymchwilio. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys osteopathiaid ac aelodau lleyg ac maent yn gyfrifol am asesu'r gŵyn, y dystiolaeth sy'n ei chefnogi ac unrhyw ymateb gan yr osteopath. Yna, mae'n rhaid iddynt benderfynu a ddylid cynnal gwrandawriad cyhoeddus.

Ar ôl ystyried adroddiad y Sgriniwr, gan y Pwyllgor Ymchwilio:

- a. gyfeirio'r achos at y Pwyllgor lechyd os yw'n ymddangos bod gan yr osteopath broblem iechyd (cysylltwch â ni os ydych chi angen rhagor o wybodaeth am sut mae'r Pwyllgor lechyd yn gweithio);
- b. penderfynu peidio â chymryd camau pellach;
- c. cyfeirio'r honiadau ar gyfer gwrandawriad cyhoeddus.

Os yw'r Pwyllgor Ymchwilio'n penderfynu y dylid cynnal gwrandawriad cyhoeddus, byddwn yn rhoi cyfarwyddyd i'n cyfreithwyr baratoi'r achos yn erbyn yr osteopath.

GWRANDAWRIAD CYHOEDDUS GERBRON Y PWYLLGOR YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

Cynhelir holl wrandawriadau'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn gyhoeddus ac mae'n rhaid iddynt ddilyn gweithdrefnau ffurfiol, fel achos llys. Gall y wasg fynd iddynt. Bydd y Pwyllgor yn gwrando ar y ddwy ochr ac yna, yn breifat a gyda chymorth aseswr cyfreithiol, ystyried pa ffeithiau sydd wedi'u profi ac a yw'r rhain yn gyfystyr ag:

- a. anghymhwyster difrifol;
- b. ymddygiad annerbyniol; neu
- c. euogfarn am drosedd ddifrifol.

Er mai chi sydd wedi gwneud y gŵyn wreiddiol o bosibl, tyst fyddwch chi mewn unrhyw wrandawriad gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, ac efallai y gofynnir i chi dyngu llw cyn rhoi tystiolaeth. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys o leiaf un aelod lleyg o'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol bob amser er mwyn edrych ar bob achos o safbwynt budd y cyhoedd.

CANLLAWIAU TYSTION

Rydym wedi llunio canllawiau ar gyfer tystion: fideo rhagarweiniol a thaflen, sydd ar gael ar ein gwefan yn yr adran ar [fynychu gwrandawriad](#). Mae'r daflen ar gael mewn print hefyd. Nod y canllawiau yw cefnogi tystion ac egluro iddynt beth sy'n digwydd cyn, yn ystod ac ar ôl gwrandawriad.

PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR YMDDYGIAD PROFFESIYNOL

Fel arfer, bydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn cyhoeddi ei benderfyniad ar ôl y gwrandawriad ac ym mhresenoldeb pawb a gymerodd ran. Os yw'r achos yn cael ei brofi, bydd yr osteopath a'i gynrychiolydd cyfreithiol yn cyflwyno ystyriaethau lliniaru cyn i'r Pwyllgor benderfynu pa gamau i'w cymryd. Bydd enw osteopath yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr (sy'n golygu na fydd yn gallu ymarfer fel osteopath) yn yr achosion mwyaf difrifol.

Mae camau eraill y gallai'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol eu cymryd yn cynnwys:

- a. gwahardd osteopath rhag ymarfer am gyfnod;
- b. gosod amodau ar ymarfer osteopath neu adael iddo barhau i weithio ond gyda chyfyngiadau;
- c. ceryddu'r osteopath yn ffurfiol.

Ni all y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol orchymyn i osteopath roi iawndal i gleient neu dalu dirwy.

APELIADAU

Gall osteopath apelio i Bwyllgor Barnwriaethol y Cyfrin Gyngor (Arglwyddi'r Gyfraith) yn erbyn penderfyniad i ddiddymu neu gyfyngu ar ei gofrestrriad.

CYSYLLTU Â'R CYNGOR OSTEOPATHIG CYFFREDINOL

Mae swyddfeydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn:

Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London
SE1 3LU

Ffôn: 020 7357 6655



**Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol**

**Os ydych chi'n cael anhawster
darllen neu gael gafael ar y
ddogfen hon, cysylltwch â'r Cyngor
Osteopathig Cyffredinol
ar: 020 7357 6655 x242
neu e-bost: info@osteopathy.org.uk**

**The General Osteopathic Council
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
London SE1 3LU**

Ffôn: 020 7357 6655

E-bost: info@osteopathy.org.uk

Gwefan: www.osteopathy.org.uk

Mehefin 2016